**GWEITHDREFNAU ARIANNOL**

**Adran 00 – Trosolwg**

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| **Dyddiadd Cymeradwyo:** | Hydref 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Rheolaeth Cyllid |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | Hydref 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Mehefin 2022 |

**Adran 00: Gweithdrefnau Ariannol - Trosolwg**

## 00. Adran 00: Gweithdrefnau Ariannol - Trosolwg

1.0 Diben y Gweithdrefnau Ariannol
Canllaw arferion gorau i staff y Brifysgol sy'n gyfrifol am weinyddu ariannol yw'r Gweithdrefnau Ariannol.

2.0 Rheoliadau Ariannol Prifysgol Aberystwyth
- 2.1 Mae'r Rheoliadau Ariannol yn disgrifio'r egwyddorion sylfaenol sy'n ymwneud â phob gweithgaredd ariannol, ac mae'n rhaid i holl staff y Brifysgol lynu wrthynt.
- 2.2 Mae'r Gweithdrefnau Ariannol yn cefnogi'r Rheoliadau Ariannol drwy esbonio sut y caiff y Rheoliadau eu gweithredu.
- 2.3 Petai'n ymddangos bod gwrthdaro rhwng y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau, y Rheoliadau fydd yn cael blaenoriaeth.

3.0 Adolygu a Chymeradwyo Gweithdrefnau Ariannol
- 3.1 Dylid adlewyrchu unrhyw newidiadau i Weithdrefn Ariannol yn nogfen y Weithdrefn Ariannol gysylltiedig.
- 3.2 Dylid adolygu a diweddaru'r Gweithdrefnau Ariannol yn ôl y gofyn, ac o leiaf unwaith y flwyddyn.
- 3.3 Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth ffurfiol Pwyllgor ar gyfer y Llawlyfr Gweithdrefnau Ariannol, ond rhaid i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol gyflwyno unrhyw newidiadau yng nghyfarfod Gweithrediaeth y Brifysgol i'w cymeradwyo.

4.0 Sut i ddefnyddio'r Gweithdrefnau Ariannol
- 4.1 Gall staff Prifysgol Aberystwyth ddefnyddio'r adrannau unigol i ddod o hyd i gyfarwyddyd ynglŷn â gweithdrefnau penodol.
- 4.2 Gellir defnyddio adrannau'r Gweithdrefnau Ariannol i gyd er mwyn cael trosolwg cynhwysfawr o'r arferion gorau wrth weinyddu cyllid y Brifysgol.

5.0 Staff sydd â Chyfrifoldebau Gweinyddu Ariannol
- 5.1 Bydd yr Adran Gyllid yn cadw rhestr o aelodau staff sydd â chyfrifoldebau ariannol fesul adran.
- 5.2 Bydd gofyn i'r Uwch Ddeiliaid Cyllideb (Penaethiaid Adrannau) a'r Deiliad Cyllideb sydd â chyfrifoldebau cyllidebu dirprwyedig roi cadarnhau neu ddiweddariad i'r Adran Gyllid bob blwyddyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at finance@aber.ac.uk